Capel Ebeneser, Treuddyn

**Newyddion Diweddaraf**

**Tachwedd 2023 – Mawrth 2024**

Braf iawn yw cael rhoi manylion am wasanaethau/ gweithgareddau'r Capel unwaith eto ar Wefan Treuddyn.

Ar brynhawn Sul, Tachwedd 5ed, yn dilyn gwasanaeth gan Y Parchedig Ddr Jennie Hurd, cawsom gyfle i longyfarch Mrs Carys Huxley ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 90 oed. Cafwyd cyfle i gael paned a chacen ynglŷn â hel atgofion. Mae Carys wedi bod yn aelod o'r capel ers yn blentyn. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Pleser yw cael dweud fod Mrs Alaw Smith wedi ail ddechrau Ysgol Sul yn Ebeneser, dan yr enw Clwb Capel Ebeneser. Hi sy'n trefnu a chymryd gofal o'r sesiynau ac maent yn cyfarfod ar y Sul cyntaf pob mis rhwng 10 ac 11 y bore. Caiff y plant gyfle i wrando ar storiâu o'r Beibl a gwneud gwaith crefft berthnasol. Braf yw cael dweud bod nifer y plant ac oedolion sy'n mynychu'r Clwb wedi cynyddu ers iddo ddechrau ym mis Chwefror 2023. Yn ystod mis Rhagfyr roedd y plant yn brysur yn addurno coeden Nadolig a oedd yn rhan o'r Ŵyl Coeden Nadolig yn Eglwys y Plwyf, Treuddyn. Fe wnaeth y plant hefyd gymryd rhan yng ngwasanaeth Carolau Nadolig y Capel ar Ragfyr 17eg gyda chyflwyniad o enedigaeth y baban Iesu. Cawsant gymeradwyaeth da gan y gynulleidfa. Estynnir croeso cynnes i blant a'u rhieni/oedolyn i fynychu sesiynau'r Clwb.




Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Dilys Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Jane yn ddiweddar. Roedd Jane a'i chwiorydd yn mynychu'r Ysgol Sul yn y 60au a 70au ac yma yn Ebeneser roedd y teulu'n addoli, Cydymdeimlwn efo'r holl deulu yn eu colled a'u tristwch.

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Carolau dwyieithog undebol am 2.30 pnawn  Sul, Rhagfyr 17eg dan ofal ein gweinidog, Mwynhawyd lluniaeth ysgafn yn dilyn y gwasanaeth. Diolch i bawb a ddaeth atom.

Ar ddiwedd blwyddyn hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cynnal gwasanaethau yma yn ystod y flwyddyn 2023, gan gynnwys ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans.

Anfonwn ein dymuniadau a chofion gorau i'r aelodau hynny sydd ddim yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd a dymunwn lwyr iachâd i bob un ohonoch. Hefyd, hoffem ddymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

## **Gwasanaethau Ionawr – Mehefin 2024** (amser fel y nodir)

| | | |
|---|---|---|
| **Ionawr** | **7** | **Parch Eirlys Gruffydd Evans am 2.30yp (Cymun)** |
| **Ionawr** | **14** | **Dim Gwasanaeth** |
| **Ionawr** | **21** | **Dim Gwasanaeth** |
| **Ionawr** | **28** | **Parch Marc Morgan am 2.30yp** |
| | | |
| **Chwefror** | **4** | **Parch Eirlys Gruffydd Evans 2.30yp (Cymun)** |
| **Chwefror** | **11** | **Dim Gwasanaeth** |
| **Chwefror** | **18** | **Parch Ddr Jennie Hurd am 4.00 yp** |
| **Chwefror** | **25** | **Siân Williams am 2.30yp <u>Bilingual with English address</u>** |
| | | |
| **Mawrth** | **3** | **Dydd Gweddi'r Byd yn Eglwys y Santes Fair** |
| **Mawrth** | **10** | **Parch Marc Morgan am 2.30 yp (Cymun)** |
| **Mawrth** | **17** | **Diacon Lisa Rathbone am 2.30yp <u>Bilingual with English address</u>** |
| **Mawrth** | **24** | **Maryl Rees am 2.30 yp** |
| **Mawrth** | **29** | **Parch Eirlys Gruffydd Evans 10.30 yb (Cymun)** |
| **Mawrth** | **31** | **Elizabeth Jones am 6yh** |
| | | |
| **Ebrill** | **7** | **Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh (Cymun)** |
| **Ebrill** | **14** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ebrill** | **21** | **Marion Simkin am 6 yh** |
| **Ebrill** | **28** | **Parch Marc Morgan am 6 yh** |
| | | |
| **Mai** | **5** | **Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh (Cymun)** |
| **Mai** | **12** | |
| **Mai** | **19** | **Marion Simkin am 6 yh** |
| **Mai** | **26** | **Parch Marc Morgan am 6 yh** |
| | | |
| **Mehefin** | **2** | **Parch Eirlys Gruffydd Evans am 6yh (Cymun)** |
| **Mehefin** | **9** | **RALI - Diacon Lisa Rathbone am 6yh - <u>Bilingual with English Address</u>** |
| **Mehefin** | **16** | |
| **Mehefin** | **23** | **Parch Marc Morgan am 6 yh** |
| **Mehefin** | **30** | |